Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd
yn Ganolfan Tregarth
**Nos Iau 20 Mawrth 2025 am 18.30**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Lowri Jones

**Cynghorydd Sir**

Y Cynghorydd Beca Roberts

- **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Cyng. Lowri Jones.

  **Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Gareth Williams, Iwan Hywel a David Roberts.

- **Cofnodion**
  **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2025.

**3. Materion yn codi o'r cofnodion**

- **Seddi Gwag -** Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi creu taflen ar gyfer eu dosbarthu i'r gymuned ym Mynydd Llandygai a Sling – ar y gweill. Y Clerc i ail-hysbysebu'r seddi gwag.
- **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy –** estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Y Clerc wedi cysylltu gyda Ian Morgan, a chadarnhawyd fod y gwelliannau ar y rhaglen waith – ar y gweill.

**3.3 Murlun Canolfan Tregarth –** Nodwyd fod y gwaith ar fin darfod, y Clerc i drefnu agoriad swyddogol ar ôl derbyn cadarnhad o'r dyddiad darfod gan yr artist.

**3.4 Cais bin baw ci –** Cadarnhawyd fod y Cyngor wedi gwneud cais ychwanegol am fin baw ci ger mynediad Lôn Las ar Allt Cerrigllwydion – dim ymateb hyd yn hyn.

**3.5 Cae'r Gors -** Arwyddion wedi ei daro ac angen ei ail osod – ar y gweill.

**3.6 Gordyfiant -** Tyfiant angen ei dorri rhwng fferm Bwlch ac Arafon, y Clerc wedi hysbysu Ian Morgan, Cyngor Gwynedd.

**3.7 Lliwen Morris - 5% chwyddiant ar rent canolraddol, Cae'r Gors –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts a Sian Gwenllian AS ar ganol edrych ar y mater hwn.

**3.8 Glanhau cysgodfannau bws -** Y Clerc wedi gofyn i Swyddog Cynnal y Bartneriaeth ymgymryd â'r gwaith glanhau – ar y gweill.

**4. Gohebiaeth**
Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2025'

**4.1 Portffolio Cynllun Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru –** Nodwyd y Cyng. Beca Roberts ei fod wrthi yn dyd-weithio gyda mudiadau ardal Bethesda a Blaenau i rhoi pwysau ar Zip World i ddatblygu Cynllun ymgysylltu er mwyn cael mewnbwn pobol lleol ar y cynlluniau, i gynnal asesiadau effaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac i ddatblygu 'Community Endowment Fund'. Penderfynwyd fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig hwn.

**4.2 Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus:** Canllaw Cynllunio Atodol Drafft – Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r canllaw, y Clerc i ddanfon sylwadau.

**4.3 Zurich Municipal – Yswiriant y Cyngor –** Penderfynwyd y cyngor adnewyddu'r yswiriant.

**5. Rhoddion**
Trafodwyd y rhestr rhoddion. Roedd rhaid blaenoriaethu'r ceisiadau gan fudiadau lleol oherwydd sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Academi Darts Bethesda | £50.00 | |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £50.00 | |
| Carnifal Bethesda | £100.00 | (AJ datgan diddordeb) |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £100.00 | (Dafydd R datgan diddordeb) |
| Growing for Change | £100.00 | |
| Hwb Ogwen | £100.00 | |
| Llais Ogwan | £250.00 | (DO datgan diddordeb) |
| Marie Curie | £50.00 | |
| Nant Ffrancon Brownies | £100.00 | |
| Sefydliad y Merched | £100.00 | |

**6. Lwfans Blynyddol**
Pawb yn bresennol wedi derbyn ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad neu'r ffurflen 'optio allan'. Yr aelodau i lenwi'r ffurflen perthnasol a'i anfon yn ôl at y Clerc, cyn gynted a bo modd.

**7. Gwaith y mis**
**7.1 Difrod i wâl, Ty'n Lon –** y Clerc i adrodd i Cyngor Gwynedd am ddifrod i'r wal.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**
**Canolfan Tregarth** – y Clerc i ddanfon Pen Telerau prydles y Ganolfan at yr aelodau i weld os ydynt yn hapus i gymeradwyo.
**Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru- Cynrychioli Ardal Dyffryn Ogwen –** Nodwyd y Cyng. Dafydd Roberts ei fod wedi cael ei enwebu fel cynrychiolydd ar ran Cydran 1

o’r Safle Treftadaeth Byd, sef ardal Dyffryn Ogwen, ac ei fod yn edrych ymlaen yn fawr at gynrychioli a chyfleu barn y tri Cyngor Cymuned yng nghyfarfodydd Bwrdd y Bartneriaeth.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**9.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**10. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu mis Tachwedd | £108.00 |

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0801/16/CC** | Pont Sarnau, Bethesda<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/1103/16/DT** | 14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu dormer cefn ynghyd a mynedfa newydd a newidiadau mewnol.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0997/16/LL** | Hen Pandy Craig Y Pandy, Tregarth |

| | |
|---|---|
| | Newid defnydd uned wyliau yn dŷ annedd ar gyfer gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/1090/16/LL** | Penrala, Tregarth<br>Bwriad i godi adeilad swyddfa a storfa newydd ynghyd â mynediad newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwaith tirlunio meddal ar dir i'r gorllewin o Benrala, Tregarth<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/1058/16/LL** | Parth 3 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Adeiladu 4rh. uned ddiwydiannol newydd a thirlunio allanol cysylltiedig ar Lain C3 ym Mharc Bryn Cegin, Llandygai, Bangor.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/1134/16/DT** | Tŷ Newydd Tal Gae, Tregarth,<br>Cais Cynllunio Ôl-weithredol ar gyfer dymchwel hen garej/gweithdy/sied a gosod un newydd yn ei le.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/1106/16/DT** | Y Stabl, Llandygai, Bangor<br>Estyniad Ystafell Haul Cefn Un Llawr Newydd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0937/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda<br>Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0111/16/DT** | 3 Hendypeg, Tregarth<br>Gosod pwmp gwres Riello<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0003/16/DT** | Bryn Derwen, Bethesda<br>Codi 3 boeler biomas ( cais ôl-weithredol)<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0048/16/CR** | Gwalia, 1, Bryn Eglwys, Santes Ann, |

| | |
|---|---|
| | Mynydd Llandygai<br>Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0042/16/LL** | Parth 4 Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Bwriad i godi 4 uned ddiwydiannol o fewn un adeilad ynghyd a ffordd fynediad i wasanaethu'r datblygiad<br>**Penderfyniad:** ar y gweill |
| **C24/0934/16/LL** | Uned Porth Penrhyn, Bangor<br>Caniatâd cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol ar y safle a chodi adeilad newydd i greu 5 o unedau masnachol/diwydiannol ynghyd â mynedfa newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwaith lliniaru llifogydd a thirlunio meddal<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C25/0184/16/LL** | Codi adeilad masnachol/diwydiannol newydd (dosbarth defnydd B2/B8), creu maes parcio ynghyd â gwaith cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** Cefnogi. |

**13. Unrhyw fater brys arall**

Dim.